

Dyna adeg pan oedd y Diwygiad yn ei blyntydod, gydag aelodau teyrngar o'r Eglwys Wladol yn sefydlu 'societies' [seiadau] lleol o gredinwyr brwd yng Nghymru ac yn Lloegr. Rhaid oedd cyfundrefnu, ac i'r perwyl hwnnw cynhelid 'Associations' [Sasiynau] yn rheolaidd mewn mannau gwahanol.

Bu Sasiynau yn Watford ym 1741 a 1742, ond arbenigrwydd yr un a gynhaliwyd yno ac yn 'society house' newydd Groeswen ar y 5ed a'r 6ed o Ionawr 1743 oedd mai hi oedd yr un gyntaf i'w mynychu gan arweinwyr mudiad y Methodistiaid Calfinaidd yng Nghymru a Lloegr; hi hefyd oedd yr un gyntaf pryd y cadwyd cofnodion ac y dechreuwyd cyfundrefnu'r mudiad o ddfri'. Priodol, felly, oedd i Hugh Williams roi'r enw *Y Sasiwn Gyntaf* ar ei ddarlun.


Cynhaliwyd cyfarfodydd dydd y Sasiwn yng Ngroeswen. Yna, gyda'r hwyr, gwahoddwyd yr aelodau i Watford Fawr gan y perchennog Thomas Price i barhau eu trafodaethau a chael llety dros nos. A dyna lle maen nhw yn narlun Hugh Williams, o gwmpas y bwrdd tan oriau mân y bore. Yn y canol mae'r Sais, y Parchedig George Whitefield, a etholwyd yn Llywydd ar y Sasiwn Eingl-Gymreig unedig hon. Ar y chwith iddo mae Williams Pantycelyn (neu, a bod yn gwbl gywir, y Parchedig William Williams, Curad Llanwrtyd ac Abergwesyn, 26 oed) - yn hynod debyg i'r darlun ohono yn *Holl Weithiau Williams!*

Yn ôl pob tebyg, Daniel Rowland, ar y dde i Whitefield, oedd yr hynaf o'r saith - 30 oed ac yn Gurad i'w frawd yn Llangeitho ar y pryd. Ar y dde eithaf mae Howell Harris, 29 oed, yn pwyso ymlaen yn eiddgar dros ymyl y bwrdd. Yn eistedd ar y chwith mae John Kennick (ni wyddys ei oed) a Joseph Humphreys (22 oed) o Loegr; roedd y ddau yma'n 'exhorters' (h.y. 'cynghorwyr') llewg, fel roedd


Harris. Yn sefyll y tu ôl i Williams mae'r Parchedig John Phillips, Curad Aberystroth, Blaenau Gwent. Onid ydyw Hugh Williams wedi llwyddo'n rhyfeddol i gyfleu naws y cyfarfyddiad hwyrol yma o'r seithwyr ifanc 'ar dân er daioni'?

'Iliaws o gopiâu o hono'

Beth oedd gan Hugh Williams yn sail i'w bortread o Howell Harris yn y darlun hwn? Bu Harris farw yn Nhrefeca ym 1773. Y flwyddyn ganlynol, cyhoeddwyd cofiannau Cymraeg a Saesneg iddo - yn ddi-ddarlun. Cyhoeddwyd un arall (di-ddarlun eto) ym 1792. Yna, ym 1838 (65 mlynedd ar ôl iddo farw), dyma Nathan Hughes yn mynd ati i ail-gyhoeddi cofiant 1792. Yn ôl awduron *Y Tadau Methodistiaidd*: 'pan ynghylch cyhoeddi...cafodd Nathan Hughes afael ar ddarlun o hono yn Nhrefeca, pa un a



Darlun o Daniel Rowland a ymddangosodd yn The Gospel Magazine, Gorffennaf 1778 (o Y Tadau Methodistiaidd, Cyfrol I, 1895)



Mân-ddarlun o Daniel Rowland a gyhoeddwyd gan R. Bowyer fis Tachwedd 1790 (o Y Tadau Methodistiaidd, Cyfrol I, 1895)

dynnu'r dyfrliw gwreiddiol².

Cyhoeddwyd y darlun arall o Daniel Rowland yn *The Gospel Magazine* am fis Gorffennaf 1778, pan oedd yn 66 oed. Ond, yn ôl awduron *Y Tadau Methodistiaidd*: 'nid yw yn debyg mai ar gyfer y misolyn hwnw y gwnaed ef, oblegyd dengys Rowland yn nghanol ei ddyddiau, neu yn gynarach na hyny...'

Pa un o'r ddau ddarlun dybiech chi oedd yn sail i'r Daniel Rowland deg-ar-hugain-oed a welir yn *Y Sasiwn Gyntaf*? Rywsut neu'i gilydd, rydw i'n gweld gwaith y *Miniature Painter to His Majesty* yn debycach i ail-gread Hugh Williams na'r dyn 'yn nghanol ei ddyddiau' a welir yn y *Gospel Magazine*. Beth bynnag, dyma 'ieuengeiddiad' sylweddol arall gan Hugh Williams ym 1912!

Y tro nesaf: pam y bu i Hugh Williams baentio *Y Sasiwn Gyntaf* a beth oedd hanes 'society house' Groeswen a ffermyd Watford Fawr wedyn?

Troednodion

1 Ceir ysgrif ar yrfa Hugh Williams gan Richard H. Lewis yn *Y Casglwr*, rhif 46, Mawrth 1992

2 Mae teitl llyfryn H.P. Richards: David Williams (1738-1816), Author, Philosopher, Educationist, Politician and Founder of the Royal Literary Fund yn awgrym o amlochredd un o feibion disglair Caerffili. Ceir ynddo yr hanes am ymweliad Bowyer â Llangeitho ar ffurf llythyr gan William Pryce (mab y Thomas Price, Watford Fawr, a fu mor lletygar i'r diwygwyr) at David Williams: 'I suppose you saw an account by Lady Huntingdon of the death of Mr. D. Rowland of Llangeitho. She sent Mr. Bowyer...to paint his picture; he died the week following'.



Darlun o Howell Harris agyhoeddwyd gan Nathan Hughes ym 1838 (o Y Tadau Methodistiaidd, Cyfrol I, 1895)

osododd mewn llaw cerfiedydd mewn dur, a chyhoeddwyd Iliaws o gopiâu o hono'.

Felly, fel yn achos Pantycelyn, dyma un arall o enwogion Cymru yn cael ei ddelweddu'n boblogaidd ar sail un darlun. Ond, er mwyn portreadu'r Harris ifanc yn *Y Sasiwn Gyntaf*, bu'n rhaid i Hugh Williams ei 'ieuengeiddio' yn sylweddol.

Dau ddarlun sydd ar gael o Daniel Rowland: 'Yn mhen mis ar ol marwolaeth y Diwygiwr enwog', meddai awduron *Y Tadau Methodistiaidd*, 'y cyhoeddwyd ...darlun i'w fframio...'. Gwaith R. Bowyer, *Miniature Painter to His Majesty*, ydoedd, wedi'i seilio ar fân-ddarlun dyfrliw a dynnodd ychydig ynghynt, yn gyflwynedig i Iarlles Huntingdon. Yn ôl H.P. Richards, gymaint oedd parch yr Iarlles at Rowland fel yr anfonodd Bowyer i Langeitho yn unswydd pan glywodd ei fod yn wael, i